# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 MEDI 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI A MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Rhif Cyswllt:** | **34684** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio Perfformiad a gynhaliwyd ar 27ain Gorffennaf, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiect blaenoriaeth yr Adran.

### 2.2 Cyflawni Arbedion

2.2.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu’r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion.

2.3.2 Roedd gwerth £2,375,000 o arbedion wedi eu cynllunio i’w gwireddu yn 2022/23, a hynny’n gyfuniad o arbedion oedd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol a chynlluniau newydd. Ar ôl ystyried y sefyllfa, penderfynodd y Cabinet yn Ionawr 2022 fel a ganlyn o ran y cynlluniau hynny:

- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o’r gyllideb, sef:
  - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
  - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

2.3.3 Canlyniad hyn yw fod gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion yn weddill i’w tynnu o gyllidebau’r adrannau yn 2022/23.

2.3.4 Rydym yn disgwyl setliad sylweddol is ar gyfer 2023/24 a 2024/25 nag a dderbyniwyd yn 2022/23 a felly mae’n ymddangos yn gynyddol debygol na fydd modd llithro’r cynlluniau arbed hyn ymhellach i osod cynllun ariannol cytbwys, ac ymhellach byddai angen darganfod arbedion ychwanegol.

2.3.5 Yn hanesyddol, mae’r cynlluniau arbed sydd wedi llithro yn rhai sydd wedi profi i fod yn anodd iawn eu gwireddu, a lle mae’r newidiadau enfawr yn sgil Covid19 wedi gwneud y sefyllfa yn anoddach fyth.

2.3.6 Byddai modd defnyddio rhai o’n cronfeydd i oedi ambell un o’r cynlluniau arbed hyn a phontio’r bwlch cyllidebol, ond nid yw defnyddio cronfeydd yn ateb parhaol.

2.3.7 Mae’r symiau perthnasol eisoes wedi cael eu tynnu allan o gyllidebau’r adrannau yn 2022/23; bydd adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal ar ddiwedd Awst 2022 a Tachwedd 2022 a bydd unrhyw orwariant yn cael ei amlygu a’i drafod gyda’r adrannau. Bydd adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno i Gabinet 25ain Hydref 2022.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Ebrill 2022. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**3.2** **Gwasanaeth Archwilio Mewnol.** Mae Archwilio Mewnol wedi llwyddo i gwblhau 4.48% o'r Cynllun Blynyddol 2022/2023 erbyn diwedd Mehefin, sef 3 archwiliad allan o 67. Mae'r ffigwr yma yn is na'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer, ond yn ystod chwarter 1, yn ôl yr arfer, darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol i oddeutu 70 o gynghorau tref a chymuned. Yn ogystal â hynny, bu swyddogion y gwasanaeth yn parhau ar y gwaith o gynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-daliadau i ddelio gyda prosesu Taliadau Cymorth Hunan-ynysu. Mae'r gwaith hwn o safbwynt Archwilio Mewnol bellach wedi ei gwblhau. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn ffyddiog bydd y gwasanaeth wedi dal i fyny gyda'r gwaith erbyn y chwarter nesaf ond mae llithriad yn y gwaith Archwilio Mewnol wedi cael ei ychwanegu fel risg adrannol.

**3.3** **Gwasanaeth Budd-daliadau.** Mae'r gwasanaeth wedi gallu parhau i berfformio yn erbyn ei fesurau cyflawni craidd, sef y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal, a'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn. Mae'r ddau ddangosydd yn dangos gwelliant ym Mehefin 2022 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

Yn ogystal â'r gwaith o brosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio i weinyddu dau gynllun mawr ar ran Llywodraeth Cymru, sef Taliadau Hunan-ynysu a Thaliadau i Ofalwyr Di-dâl.

**3.4** **Gwasanaeth Incwm a Dyledion.** Mae maint yr ôl-ddyledion sydd dros 6 mis oed yn cynyddu eto, ar ôl gwella yn ystod ail hanner blwyddyn ariannol 2021/22 ac yn sefyll yn £1,722,863 ar 30 Mehefin (ond wedi addasu am ddyledion y Bwrdd Iechyd mae'r cyfanswm yn gostwng i £1,406,971). Er hynny, mae'r ffigwr ychydig yn is nag yr oedd ar yr un dyddiad yn 2021. Er fod yr argyfwng costau byw yn ffactor erbyn hyn, byddai angen gwaith dadansoddi manwl cyn gallu asesu yn bendant faint o ffactor yw hyn.

**3.5** **Gwasanaeth Pensiynau.** Rwyf yn fodlon â pherfformiad y Gwasanaeth Pensiynau, ond rwyf yn ymwybodol bod y gwasanaeth hwn yn un o'r rhai lle gall recriwtio a chadw staff fod yn gonsyrn. Mae'n faes arbenigol iawn a gall colli staff profiad fod yn risg o ran gallu parhau i gynnal y lefel bresennol o berfformiad.

**3.6** **Gwasanaeth Trethi.** Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo i ddosbarthu £150 yr un i 39,486 o aelwydydd cymwys o fewn Gwynedd. Trwy gyfuniad o daliadau'n syth i'r banc a threfniadau i ddarparu taliadau mewn swyddfeydd post, roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i anfon taliad neu daleb i 99% o gartrefi cymwys erbyn diwedd Mehefin– y ffigwr uchaf yng Nghymru ar y pryd.

Mae Trethi yn wasanaeth arall ble mae recriwtio a chadw staff yn broblem gynyddol, ac rwyf yn arbennig o ymwybodol fod gallu'r gwasanaeth i ateb galwadau ffôn tra ar yr un pryd yn ymgymryd â gwaith prosesu yn falans anodd, sy'n golygu nad yw'r cyhoedd yn gallu cysylltu fel y dymunant bob amser. Oherwydd hyn, mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu adolygiad o'r galw gyda chymorth y Tîm Ffordd Gwynedd.

Er gwaethaf yr heriau a ddisgrifir uchod, mae perfformiad y gwasanaeth wrth gyflawni ei rôl greiddiol o gasglu trethi wedi parhau'n gyson â blynyddoedd diweddar. Erbyn diwedd Mehefin 2022 roedd:

- Cyfradd gasglu Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 28.96%, sydd ychydig yn is nag yr oedd yr un pryd yn 2021 (29.73%).
- Cyfradd gasglu Ardrethi Annomestig yn 23.78%, sy'n welliant ar yr un cyfnod yn 2021 (23.21%).

3.7 **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg.** Adroddwyd ar sefyllfa terfynol y Cyngor a'i holl adrannau yn yr adroddiad alldro refeniw a chyfalaf i'r Cabinet ar 14eg Mehefin 2022 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 30ain Mehefin.

Llwyddwyd i gwblhau pump set o Ddatganiadau o Gyfrifon 2021/22 yn amodol ar archwiliad (cyfrifon Gwynedd, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Harbyrau) yn amserol yn ystod Mai a Mehefin. Mae'r gwaith o gwblhau cyfrifon terfynol llawn ar ran y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn waith ychwanegol i Cyllid eleni.

3.8 **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth – Isadeiledd.** Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n ddygn i gynnal a chryfhau gwytnwch systemau'r cyngor. Rwyf yn falch o adrodd bod argaeledd y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel iawn a ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad o ymyrraeth difrifol i'r gwasanaeth. Dangosodd y rhwydwaith craidd argaeledd o 100%, gyda'r systemau critigol yn arddangos 99.99% am y chwarter. Yn ogystal â'r gwaith rhagorol o gefnogi'n systemau, fe gyflawnwyd sawl prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys uwchraddio'r rhwydwaith a gwella'r ddarpariaeth yn ein canolfannau data. Llwyddwyd unwaith eto i gadarnhau ein cydymffurfiad â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN), gan sicrhau bod gweithdrefnau a safonau diogelwch uchel gan y Cyngor.

3.9 **Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Parhau mae boddhad defnyddwyr y gwasanaeth hwn, gyda pob un o'r ymatebwyr yn nodi boddhad llawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Mae'r Ddesg Gymorth yn gwasanaethu rhwng 08:00 a 17:00 ac ar gyfartaledd fe atebwyd 19 ym mhob 20 o'r galwadau a dderbyniwyd.

3.10 **Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Mae hwn yn wasanaeth newydd sydd wedi cael ei sefydlu yn sgil trosglwyddo'r swyddogaeth o gefnogi TG ysgolion oddi wrth gwmni Cynnal. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi sefydlu'n gyflym a chadarn, ac mae'r gwaith o ddosbarthu gliniaduron newydd i athrawon wedi ei gwblhau, gyda llawer o waith pellach wedi cael ei gwblhau yn ystod yr haf, gan gynnwys paratoi gliniaduron ar gyfer disgyblion ein ysgolion uwchradd.

## 4. ARBEDION ADRANNOL

4.1 Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu un cynllun ‘Cynhyrchu Incwm drwy Atal Twyll’ gwerth £20k yn 2020/21 (12% sydd yn weddill o gynlluniau 2021/22) a £20k perthnasol i 2021/22, yn dilyn atal cyfweliadau yn ymwneud â hawliadau twyllodrus yn y maes Budd-daliadau dros gyfnod yr argyfwng. Maent yn parhau heb eu hail gychwyn o ganlyniad i’r amgylchiadau presennol, felly rhagwelir oediad pellach mewn gwireddu’r £40k.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelod Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.